

Cynghorydd Beca Roberts Cadeirydd y Cyngor  
Cyngor Gwynedd

T: +44 (0) 020 4551 0011  
W: [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Ein cyf: MCB2024/10439 Eich cyf: ER

Drwy [ebost: eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)

22 Tachwedd 2024

Annwyl Cyng Roberts,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 30 Hydref at Jonathan Reynolds AS ynghylch gwneud 1 Mawrth yn wyliau cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Rwy'n ymateb gan fod y mater hwn yn dod o fewn fy mhortffolio gweinidogol i.

Rwy'n gwerthfawrogi'r teimladau y tu ôl i gais Cyngor Gwynedd ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd Dydd Gŵyl Dewi i bobl Cymru. Fodd bynnag, er y gallai gŵyl banc ychwanegol fod o fudd i rai cymunedau a sectorau, mae'r gost i'r economi o gael gŵyl banc ychwanegol yn sylweddol.

Mae'r dadansoddiad diweddaraf yn amcangyfrif bod y gost i economi'r DU o gael un gŵyl banc unwaith ac am byth tua £2bn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r hawl i wyliau blynyddol wedi cynyddu i lawer o weithwyr, ond nid oes hawl statudol i amser i ffwrdd ar gyfer gwyliau banc neu wyliau cyhoeddus. Mae unrhyw hawl i amser i ffwrdd neu dâl ychwanegol am weithio ar ŵyl y banc yn dibynnu ar delerau contract cyflogaeth cyflogai.

Am y rhesymau hyn, nid oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid patrwm sefydledig a derbyniedig gwyliau banc yng Nghymru. Yn ogystal, tra bod gwyliau banc wedi'u datganoli i Lywodraeth yr Alban, mae pob setliad datganoli wedi'i ddatblygu yn erbyn cefndir o wahanol hanesion, yn ogystal â gwahanol systemau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a chyfreithiol. Efallai na fydd datganoli yn addas hyd yn oed lle mae'r mater wedi'i ddatganoli mewn mannau eraill.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio â'r holl Lywodraethau Datganoledig. Rydym yn gwerthfawrogi ein perthynas waith agos barhaus â Llywodraeth Cymru, tra hefyd yn parchu ei natur ddatganoledig.

Yn gywir,



**JUSTIN MADDERS AS**

Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Hawliau Cyflogaeth, Cystadleuaeth a Marchnadoedd